

Dewch i siarad am:

Diwylliant a Chwaraeon yng Nghymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government




Mae diwylliant a chwaraeon yn rhan o fywyd bob dydd

Maen nhw'n rhan o Gymru — pwy ydyn ni, o ble rydyn ni wedi dod a ble rydyn ni'n mynd.

Maen nhw'n rhoi ffyrdd i ni fwynhau bywyd, mynegi ein hunain, cadw'n actif, dysgu a chysylltu â phobl eraill.

Mae hyn yn cynnwys:



Mae Cymru'n creu cynllun newydd ar gyfer y 10 mlynedd nesaf

Mae Llywodraeth Cymru'n creu Cynllun Diwylliant a Chwaraeon newydd i Gymru... ac rydyn ni eisiau gwybod beth sy'n bwysig i chi.





Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn wlad lle mae diwylliant a chwaraeon yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a lle gall pawb ledled Cymru eu mwynhau.



Rydyn ni eisiau i Gymru gael ei hadnabod fel lle gwydych chi'r gyfer diwylliant a chwaraeon.

Rydyn ni'n meddwl efallai bod y pethau hyn yn bwysig — ydych chi'n cytuno?

Cymru iachach

Mae diwylliant a chwaraeon yn helpu ein hiechyd corfforol a'n lles meddyliol.

Cymru gydnerth

Mae sefydliadau, clybiau a lleoliadau diwylliant a chwaraeon, a'r bobl sy'n gweithio ynddyn nhw, yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i barhau ac i ddatblygu.

i Cydnerth — gallu ymdopi â phroblemau a dod drostyn nhw.

Cymru fwy cysylltiedig

Mae diwylliant a chwaraeon yn dod â phobl at ei gilydd ac yn helpu pawb i deimlo'n rhan o'u cymuned.

Cymru fwy llewyrchus

Mae diwylliant a chwaraeon yn cefnogi swyddi, cyfleoedd, busnesau a thwristiaeth.

Cymru fedrus

Mae diwylliant a chwaraeon yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan, dysgu sgiliau newydd a datblygu eu talentau.

Cymru ddwyieithog a hyderus

Mae diwylliant a chwaraeon yn ein helpu i ddathlu Cymru a'r Gymraeg, yma ac o gwmpas y byd.





Beth ydych chi'n ei feddwl?

Gall eich profiadau a'ch syniadau helpu i lunio'r cynllun.

1. Sut mae pethau nawr?

Meddyliwch am:

- ➡ Beth sy'n dda am ddiwylliant a chwaraeon lle rydych chi'n byw?
- ➡ Beth allai fod yn well?
- ➡ Beth sy'n ei gwneud hi'n anodd i bobl ifanc gymryd rhan?

2. Sut dylai pethau fod ymhen 10 mlynedd?




Dychmygwch Gymru yn 2036.

- ➡ Pa gyfleoedd dylai pobl ifanc eu cael?
- ➡ Beth fyddai'n gwneud Cymru'n lle gwyhych ar gyfer diwylliant a chwaraeon?

3. Sut gallwn ni wneud iddo ddigwydd?

Meddyliwch am:

- ➡ Beth sydd angen newid?
- ➡ Beth ddylen ni ei wneud?
- ➡ Beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf?





Diolch am gymryd rhan – mae eich syniadau'n bwysig

Bydd eich atebion yn ein helpu i ysgrifennu **Cynllun Diwylliant a Chwaraeon newydd i Gymru**.



Mae eich atebion yn ddienw. Rydyn ni'n cadw eich gwybodaeth yn breifat a fyddwn ni ddim yn rhoi eich enw gyda'ch atebion. Byddwn ni'n edrych ar eich syniadau ochr yn ochr â syniadau pawb arall.



Anfonwch eich atebion i:



StrategaethDiwylliantaChwaraeon@llyw.cymru



erbyn dydd Gwener 18 Rhagfyr

